# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Hydref 2017

Amser: 08.30 - 08.40

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017 –**

- Dadl Fer – ~~Janet Finch-Saunders (Aberconwy)~~ *(gohiriwyd tan 6 Rhagfyr)* David J Rowlands (Dwyrain De Cymru) – (30 munud)

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Rheolau Sefydlog

### 4.1 Cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26, 26A a 26B - Deddf Cymru 2017 ac Asesiadau o'r Effaith ar Gyfiawnder

Nododd y Rheolwyr Busnes y gofyniad statudol newydd a fydd yn Adran 110A o Ddeddf Cymru o'r Prif Ddiwrnod Penodedig ar 1 Ebrill 2018, a'r angen am newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu hyn. Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor â'r cynigion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i fodloni'r gofyniad newydd hwn, a chytunwyd i ddychwelyd at y mater ym mis Mawrth 2018.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur a chytunwyd i ddychwelyd ato yn eu cyfarfod ar 14 Tachwedd.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Cais gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i gynnal ymweliad ar gyfer Senedd@Delyn

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar gais gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i Aelodau'r Pwyllgor gael eu hesgusodi o'r Cyfarfod Llawn am 15.30 ddydd Mercher 15 Tachwedd 2017 i deithio i'r Wyddgrug er mwyn cynnal cyfarfodydd yno y diwrnod canlynol.